Medi - Hydref 2012

# Bwletin Cysylltiadau Conwy

## Gwella RSPB Conwy ar gyfer Pobl a Natur

## Gall breuddwydion ddod yn wir!

Mae'r gwaith ar fin dechrau a mae'r cynlluniau yn dod at ei gilydd! O fewn yr wythnosau nesa' fe fydd y newidiadau cynta' yn dechrau cymryd lle, tra mae'r system solar thermal yn cael ei gosod yn y Siop Goffi. Hefyd, mae llawer o waith yn mynd ymlaen y tu ôl i'r llenni: mae lleoliad golygfan newydd y Llwybr Ganol wedi'i ddewis, mae cynlluniau Gwylfa Natur y Jiwbilî yn dechrau dangos siap a rydym wedi'n cyffroi'n arw gan fod cynlluniau'r draeniadau wedi dod i law!! I fod yn onest, mae'n parhau i deimlo fel breuddwyd. Efallai y bydd yn teimlo'n fwy real unwaith gwelwn gip cyntaf o'r digar bach!







## Pigion diweddaraf

### Gwylfa Natur y Jiwbilî

Efallai ichi gofio o'n bwletin diwetha' y bydd yr wylfa newydd yn cael ei hadeiladu allan o fwndeli gwair - ffordd wyrdd, isel mewn cywasgiad, o adeiladu. Wel, mae'r gwair bellach wedi'i dorri! Daw o fferm sy'n perthyn i Ystad y Goron yn Sir Gaer, dros y ffîn a bydd yn cael ei storio yna nes byddwn yn barod amdano.

### Maes Parcio

Mae tendrau ar gyfer y maes parcio wedi dod i law a byddwn wedi dewis y contractwr erbyn diwedd Medi. Bwriadwn ddechrau ar y gwaith yn gynnar ym mis Tachwedd. Fe glywch chi lawer mwy am gynllyn y maes parcio yn y bwletin nesa'.

### Mynediad Artistic

Mae comisiwn y darn celf ar gyfer y gylchfan ar y gweill; dangoswyd llawer o diddordeb a derbyniwyd syniadau gwych. Bydd y dyluniad yn cael ei ddewis, mewn cydweithrediad ag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru yn nechrau Hydref. Tybed a fydd o'n furlun trawiadol, yn strwythr mawr metal neu'n flodyn llachar pinc?! Pwy a wyr?!

### Tesco

Mi fydd hi'n benblwydd cyntaf ar y lefi bag 5c yma yng Nghymru fis Hydref. Mae lefi bag Tesco yn cefnogi nifer o fentrau RSPB ar draws Cymru gan gynnwys Cysylltiadau Conwy. Felly'r tro nesa' ichi anghofio'ch bagiau eich hunain, gallwch deimlo'n hapus o wybod fod eich 5c yn mynd tuag achos gwerthchweil.

TESCO

Cymunedau a Natur
Communities and Nature

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Mae Cysylltiadau Conwy yn fenter a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhan o brosiect strategol Cymunedau a Natur Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

# Tocynnau 'Dymuniad' Daily Post – ewch ati i gasglu!!

**Dewiswyd cysylltiadau Conwy fel un o grwpiau ymgyrch tocynnau 'Dymuniad' ('Wish')!**

## Yr hyn sydd raid ichi'i wneud:

Edrych allan am docynnau 'Dymuniad' yn y Daily Post o ddydd Mawrth 2 Hydref hyd at ddydd Llun 19 Tachwedd. Casglwch gymaint o docynnau â phosibl. Anfonwch nhw i'r Daily Post.

Gan ddibynnu ar y nifer o docynnau a gesglir, byddwn yn derbyn cyfran cyfatebol o'r pot gwobr £25,000. Po fwyaf y nifer o docynnau, mwyaf y gyfran o'r wobr!



Dywedwch wrth eich ffrindiau, teulu, cymdogion, y dyn â'r ci...pawb...ac ewch i gasglu!!

# Eich syniadau chi sy'n cyfrif

Mae'n bwysig ein bod yn ymgynghori gyda phawb drwy'r holl gyfnod gynllunio...fel ei fod at ddant pawb. Dyma grŵp y Wildlife Explorers yn brysur wrthi'n meddwl am syniadau ar gyfer Y Maes. Diolch ichi!






# Ymweliad AS

Diolch yn fawr iawn i Janet Finch-Saunders, Aelod Seneddol Aberconwy, am ddod draw i'n gweld yn ystod ei gwyliau haf. Er i'r daith natur gael ei thorri'n fyr oherwydd inni ddarganfod ein hunain dan lygad storm, roedd yn fore pleserus iawn. Diolch am gefnogi Cysylltiadau Conwy, Mrs Finch-Saunders.

Dd-Ch: Arfon Williams - Rheolwr Cefn Gwlad RSPB; Owen Thomas - Swyddog Codi Arian RSPB; Janet Finch-Saunders AS; Charlotte Stretton - Prif Athrawes Maes RSPB Conwy

# Gwella'n olion carbon!

"Because we don't think about future generations, they will never forget us."
Henrik Tikkanen


Cymeradwywyd cytundeb cyntaf y project i gwmni o Lanelwy, Carbon Zero. Ar 8-10 Hydref, byddan nhw yma'n gosod paneli solar thermal ar ben to'r Siop Goffi, a fydd yn rhoi dŵr poeth inni wedi'i gynhesu yn rhanol gan yr haul.

**Ar ddydd Mercher 10 Hydref**, bydd y Siop Goffi ar gau drwy'r dydd. Bydd y Ganolfan Ymwelwyr a'r llwybrau ar agor fel arfer; bydd y toiledau ar gau am ran o'r diwrnod tra gosodir y system blymio newydd.

Pan glwyn y gair 'solar' meddyliwn yn syth am arbed egni drwy'r haul; ond beth yn union mae hyn yn ei olygu a sut mae'n gweithio?


## Beth yw solar thermal?

Defnyddia Solar Thermal wres o'r haul i gynhesu y dŵr y tu mewn i'r paneli solar ar do'r Siop Goffi. Mae'n cael ei bwmpio drwy'r pibellau i'r tanc dŵr poeth, gan gynhesu'r dŵr wrth iddo fynd heibio ar dymheredd wedi'i rhagosod. Cynhesir y dŵr ymhellach yn y tanc gan dwymwr.



## Beth sy'n arbennig am y paneli?

Y tu ôl i'r paneli solar hyn, mae defnydd hynod o adlewyrchiadol wedi'i osod y tu ôl i'r tiwbiau. Mae'r adlewyrchwyr hyn yn gadael iolau gwasgaredig syrthio ar y tiwbiau hyd yn oed pan nad yw cyfeiriad yr haul yn ddelfrydol. Mae hyn yn cryfhau cynhyrchiant y tiwbiau, gan greu mwy o ddŵr poeth.



## Sut mae'r tiwbiau yn gweithio?

Maen nhw wedi'u gwneud allan o ddau diwb consentrig gwydr. Mae'r gofod rhwng y tiwbiau hyn yn cael eu gwagio a'u selio. Gorchuddir y tiwbiau â haen o amsugnwr, aliminium nitrite sputter.

## Beth mae RSPB yn ei arbed oherwydd hyn?

Cynhyrchir y swm anhygoel o 3,534kWh y flwyddyn gan y paneli solar thermal. Mewn geiriau syml?! Mae hyn yn gyfartal i bŵeru trydan mewn tŷ maint canolig am flwyddyn gyfan! Mae ein rhaglen 'wyrdd' eisioes wedi lleihau ein defnydd o drydan o 20% - gobeithiwn y bydd y system solar thermal yn gymorth i'w leihau ymhellach, a golyga hyn lai o ollyngiad wyon tŷ gwydr ...a mwy o arian ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt yn hytrach nag arian i gwmniau mawr trydan!





# Diwrnod Blasu Gwirfoddoli



**Dydd Sul 7 Hydref, 2-4 pm. Am ddim!**
Caru Conwy? Caru natur? Ymunwch â'r tîm fel gwirfoddolwr. Mae gennym gyfleon yn y Ganolfan Ymwelwyr ac ar y warchodfa.

Cyfle yw Diwrnod Blasu Gwirfoddoli i gyfarfod rhai o'n gwirfoddolwyr i ddarganfod sut beth yn union ydi gwirfoddoli, cerdded o gwmpas y warchodfa a chael sgwrs ynglŷn â sut fedrwch chi efallai gamu 'mlaen i arbed natur.

Mae Alex Jones wedi bod yn gwirfoddoli gyda RSPB Conwy ers pan yn fyfyriwr Lefel-A ac er yn athro ysgol cynradd, mae'n parhau i wneud hynny yn ystod gwyliau'r haf. Meddai...



*"Fel gwirfoddolwr, rwy' dod i gyfarfod llawer o bobl ddiddorol mewn lle sy'n llawn bywyd gwyllt. Pan yn gweithio yn y siop neu allan yn rhwydo'r pyllau gyda'r plant, mae'n ffordd dda o roi rhywbeth yn ôl i'r RSPB."*



www.rspb.org.uk/volunteering

# Marchnad Ffermwyr Gŵyl Fwyd Conwy

**Dydd Sadwrn 27 Hydref a Dydd Sul 28 Hydref. 10yb-4yh Am ddim!**
Y flwyddyn hon, rydym yn falch o fod yn un o safleoedd Gŵyl Fwyd Conwy, sy'n brysur wneud enw iddi'i hun fel un o wyliau bwyd gore'r wlad! Yn y farchnad ffermio, cewch ddigonnedd o lysiau, cawsiau, cacennau, cigoedd, mêl a llu o ddanteithion hynod flasus, ynghŷd â thân, tostio malws melys yn ogystal â gweithgerddau crefft i'r plant.

Hoffai RSPB Cymru ddiolch i'r rheini sydd wedi cyfrannu tuag at gefnogi gwarchodfa natur ac adnoddau ymwelwyr RSPB Conwy, gan gynnwys Ystad y Goron, Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones, Amgylchedd Cymru, Tesco, Cyngor Tref Conwy a Grŵp Cefnogi RSPB Conwy.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, yr Alban rhif SC037654

## Arhoswch gyda ni

www.rspb.org.uk/conwy
conwy@rspb.org.uk
01492 584091

Darganfyddwch ni ar Facebook
Dilynnwch ni ar Twitter
@rspbconwy #conwyconnections